# PECYN GWIRFODDOLWR

## Hyfforddwr Gwirfoddol Cymunedau Bywiog

### Gwybodaeth ynglŷn â'r tîm:

Mae ein tîm Cymunedau Bywiog yn cynnal amrywiaeth o sesiynau chwaraeon a digwyddiadau mewn Ysgolion ac yn y Gymuned drwy gydol y flwyddyn. Mae gennym dîm profiadol o Hyfforddwyr sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon hwyliog ac amrywiol bob dydd, drwy gydol y flwyddyn. Gall hyn amrywio o sesiynau chwaraeon mewn ysgolion, diwrnod hwyl yn y gymuned, gwyliau chwaraeon mewn ysgolion, twrnameintiau a llawer mwy! Cynhelir y sesiynau hyn ar adegau gwahanol, ar hyd a lled y Sir.

### Tasgau allweddol:

Mae'r tasgau arferol y gofynnir i chi ymgymryd â nhw wedi'u rhestru isod, a chewch hyfforddiant lawn ar bob un:

- Helpu i gefnogi gwyliau, cystadlaethau a thwrnameintiau mewn ysgolion ac yn y gymuned.
- Helpu yn ystod diwrnodau/digwyddiadau hwyl i'r teulu yn y gymuned.
- Helpu i osod pethau i fyny cyn y sesiwn, yn ystod y sesiwn a chlirio ar ei hôl.
- Cymryd cofrestrau a monitro'r ardaloedd 'chwarae rhydd'.
- Ymweld ag ysgolion lleol i gefnogi hyfforddwyr i ddarparu'r sesiynau.

### Gofynion:

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, rydym yn chwilio am o bobl gyfeillgar, hawdd mynd atynt sy'n caru chwaraeon. Os oes gennych chi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, byddwch yn ffitio i mewn yn syth. Oherwydd natur y swydd mae'n rhaid i'n holl wirfoddolwyr gytuno i gael gwiriad DBS gan DLL.

### Oriau:

Bydd yr oriau'n amrywio. Rydym yn gwahodd ein holl wirfoddolwyr i roi gwybod pa bryd y byddant ar gael ychydig wythnosau ymlaen llaw er mwyn gallu eu clustnodi i'r sesiynau sydd fwyaf addas iddyn nhw. Mae hanner diwrnod a diwrnod llawn yn bosibl, yn ogystal â blociau fesul awr.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?:

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i'n gwefan www.denbighshireleisure.co.uk i lenwi ein ffurflen fer. Ar ôl i chi wneud hynny byddwn yn eich gwahodd i ddod am sgwrs am y rôl.

***This document is also available in English***

hamdden@hamddensirddinbych.co.uk
Denbighshireleisure.co.uk